| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22ain Mai 2012** |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog:** | |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau** |

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr opsiynau ar gyfer dyrannu Uwch Gyflogau yn unol ag argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

2.1 Yng nghyfarfod y Cyngor ar 15fed Mai, dyrannodd yr Aelodau 14 Uwch Gyflog a mynegi dymuniad i ystyried opsiynau o ran sut dylid dyrannu'r 3 Uwch Gyflog arall a oedd ar ôl.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael o ran dyrannu Uwch Gyflogau a phenderfynu ar ba opsiwn y dymuna ei fabwysiadu.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Yn ei gyfarfod ar 15fed Mai 2012, derbyniodd y Cyngor adroddiad yn ymwneud â Chydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau a oedd yn nodi'r darpariaethau a gynhwyswyd yn adroddiad Panel Annibynol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

4.2 Penderfynodd y Cyngor y dylid talu'r Uwch Gyflogau canlynol.

| Swydd | Band | Cyflog |
|---|---|---|
| Arweinydd | Band 1 | £42,300 |
| Dirprwy Arweinydd | Band 1 | £29,820 |
| Aelod Cabinet x 6 | Band 2 | £25,660 |
| Cadeirydd Pwyllgor Craffu x 3 | Band 3 | £21,910 |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio | Band 3 | £21,910 |
| Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu | Band 3 | £21,910 |
| Cadeirydd Pwyllgor Archwilio / Llywodraethu Corfforaethol | Band 3 | £21,910 |

4.3 At hyn, penderfynodd y Cyngor bod Cyflogau Dinesig yn cael eu talu i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor.

4.4 Bydd yr aelodau'n cofio bod nifer yr Uwch Gyflogau y gall y Cyngor hwn eu dyrannu wedi eu cyfyngu i 17.

4.5 Fe gofia'r aelodau hefyd bod y Panel wedi pennu'r swyddi ar gyfer y rhain y gellir dyrannu Uwch Gyflog, a nodir y swyddi hyn isod

| | **Grŵp A** | **Grŵp B** | **Grŵp C** |
|---|---|---|---|
| **Uwch Gyflogau (yn cynnwys Cyflog Sylfaenol)** | | | |
| **Band 1** | | | |
| Arweinydd | £52,700 | £47,500 | £42,300 |
| Dirprwy Arweinydd | £37,100 | £33,460 | £29,820 |
| | | | |
| **Band 2** | | | |
| Gweithredol | £31,900 | £28,780 | £25,660 |
| | | | |
| **Band 3** | | | |
| Caderiryddion Pwyllgor<br>Arweinydd yr wrthblaid fwyaf | £21,910 | £21,910 | £21,910 |
| | | | |
| **Band 4** | | | |
| Arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill | £16,920 | £16,920 | £16,920 |

4.6 Caiff y Cyngor, ond nid oes yn rhaid iddo, ddyrannu 3 Uwch Gyflog arall. Penderfynodd y Cyngor ar 15fed Mai na fyddai Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn denu Uwch Gyflog gan fod y pwyllgor ond yn debygol o gyfarfod unwaith y flwyddyn. Y swyddi eraill sy'n gymwys i dderbyn Uwch Gyflog yw:

Band 3 - Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf

Band 4 - Arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill.
Mae 4 grŵp gwleidyddol ar y Cyngor, a dim ond 3 Uwch Gyflog a gaiff eu dyrannu.

4.7 Nodir isod opsiynau posibl i'r Cyngor eu hystyried.

Opsiwn 1

Peidio â dyrannu unrhyw Uwch Gyflogau ychwanegol a thalu ond y rhai a gytunwyd ar 15fed Mai 2012 gan y Cyngor.

Opsiwn 2

Dyrannu Uwch Gyflog i Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf a dyrannu'r 2 Uwch Gyflog sydd ar ôl i Arweinwyr y 2 grŵp gwleidyddol fwyaf arall. Ni chaiff un Aelod dderbyn mwy nag un Uwch Gyflog. Ni fyddai Uwch Gyflog sy'n ymwneud ag arwain grwpiau gwleidyddol yn daladwy i Arweinwyr Grwpiau a oedd yn derbyn Uwch Gyflog arall.

Opsiwn 3

Dyrannu Uwch Gyflog i Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf a chyfyngu nifer yr Uwch Gyflogau i 15. Gellid defnyddio'r arian a fyddid wedi ei dalu i 2 Arweinwyr Grŵp ar gyfer Datblygu Aelodau.

Opsiwn 4

Dyrannu Uwch Gyflog i Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf a chyfyngu nifer yr Uwch Gyflogau i 15. Gellid cymryd y cyllid y byddid wedi ei dalu i'r 2 Arweinydd Grŵp fel arbedion.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r penderfyniad yn gweithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau Cyngor sy'n perfformio'r uchel.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

6.1 Byddai cost Opsiwn 1 a fyddai'n dyrannu 31 Cyflog Sylfaenol, Pennaeth Dinesig, Dirprwy Bennaeth Dinesig ac 14 o Uwch Gyflogau yn dod i £799,805.

Byddai cost Opsiwn 2 yn dod i £816,030 pe byddai holl Gyflogau Arweinwyr Grwpiau yn daladwy.

Byddai cost Opsiwn 3 yn dod i £808,540 mewn perthynas â chyflogau a £7490 mewn perthynas â Datblygu Aelodau.

Byddai cost Opsiwn 4 yn dod i £808,540.

**7. Pa ymgynghori a fu?**

7.1 Cafwyd ymgynghoriad eang ar adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gydag awdurdodau lleol a CLlLC a chafodd yr adroddiad ei newid ar ôl ymgynghori.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n ofyniad statudol i dalu cyflogau ar y cyfraddau hyn. Gellir talu'r costau o'r cyllidebau presennol

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lliehau?**

9.1 Os nad yw'r Cyngor yn gweithredu gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion a gall orfodi unrhyw gyfarwyddyd o'r fath trwy wneud cais am orchymyn gorfodi.

## 10. Pŵer i gymryd y Penderfyniad

Adran 153 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.